**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol**
**a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2023 trwy Zoom**

**PRESENNOL**

Cynrychiolwyr y Cyflogwr:
Y Cynghorydd John B Hughes
Dafydd Edwards, Trysorydd

Cynrychiolwyr y Gweithwyr:
Richard Fairhead, Cymdeithas yr Arweinwyr Tân - Prospect, Cynrychiolydd y Gweithwyr (Cadeirydd)
Jane Honey, Cymdeithas y Swyddogion Tân

Ymgynghorwyr
Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Beccy Marfleet, Swyddog Pensiynau
Martin Morgan, Cronfa Bensiwn Dyfed

Cofnodydd
Lisa Allington, Cynorthwyydd Gweithredol

**1 YMDDIHEURIADAU**

1.1 Cynigiwyd a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gareth Owens, y Clerc Monitro, a'r Cynghorydd Bryan Apsley. Nodwyd bod Stuart Stanley a Matt Ryan sy'n cynrychioli Undeb y Brigadau Tân yn absennol heb ymddiheuriad.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

**3 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

3.1 Nodwyd bod Gareth Owens, y Clerc Monitro, yn y cyfarfod blaenorol wedi ei gofnodi fel presennol ac wedi rhoi ymddiheuriadau. Cadarnhawyd ei fod wedi cynnig ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

3.2 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2022 eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir, gan gymryd y diwygiad uchod i ystyriaeth.

## 4. ADOLYGU AELODAETH A CHYTUNO AR DDYDDIADAU CYFARFODYDD

4.1 Cynigiodd ACFO MacArthur y dylid cynyddu aelodaeth y pwyllgor er mwyn sicrhau bod cynrychiolaeth ddigonol bob amser ym mhob cyfarfod ar gyfer y gweithwyr a'r cyflogwr. Awgrymwyd bod y Cylch Gorchwyl yn cael ei ddiwygio i gynnwys pum cynrychiolydd ar ran y cyflogwr a phump ar ran y gweithwyr. Byddai PSTC MacArthur yn mynd â'r cynigion gerbron yr Awdurdod Tân i'w cymeradwyo.

4.2 Awgrymwyd ymhellach y dylid cynnal cyfarfodydd bob chwarter, ym mis Ebrill, Gorffennaf, Hydref a Ionawr ym mhob blwyddyn ariannol.

**PENDERFYNWYD:**

**i) diwygio'r Cylch Gorchwyl i ddiweddaru'r aelodaeth i bum cynrychiolydd i'r gweithwyr a phum cynrychiolydd i'r cyflogwr; a**

**ii) threfnu cyfarfodydd chwarterol ym mis Ebrill, Gorffennaf, Hydref a Ionawr ym mhob blwyddyn ariannol.**

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL

Cyflwynodd PSTC MacArthur adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol oedd yn rhoi manylion gwaith y bwrdd yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22. Nodwyd bod yr adroddiad blynyddol ynghlwm yn atodiad 1.

5.2 Pwysleisiodd PSTC MacArthur pa mor bwysig oedd hi bod yr holl Aelodau'n cwblhau Pecyn Cymorth y Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR) a byddai nodyn atgoffa yn cael ei ddosbarthu drwy e-bost yn dilyn y cyfarfod.

5.3 Cytunwyd y byddai cyfrif y Gronfa Bensiwn yn cael ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf i werthuso i'r Aelodau agweddau ariannol ar gynllun pensiwn y diffoddwyr tân.

5.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2022/23 i'w gymeradwyo gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod);**

**ii) sicrhau bod Aelodau'n cwblhau'r pecyn cymorth PRT; a**

**iii) chynnwys cyfrif y Gronfa Bensiwn ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd Pensiwn Lleol.**

## 6. ADRODDIAD DIWEDDARU – AELODAETH Y CYNLLUN

6.1 Cyflwynodd Beccy Marfleet Adroddiad Diweddaru Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a oedd yn anelu at roi diweddariad i'r Bwrdd Pensiwn Lleol (BPLl) ar faterion cyfredol yn ymwneud â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

6.2 Cafodd meysydd allweddol o gynnwys yr adroddiad eu hamlygu a gofynnodd PSTC MacArthur i Aelodau'r BPLl gydnabod nad busnes fel arfer yw hi ar hyn o bryd. Roedd Dyfarniadau McCloud ac O'Brien yn profi i fod yn drwm iawn o ran data ac roedd hyn yn arwain at gynnydd enfawr yn y llwyth gwaith. O ganlyniad, dywedwyd bod aelod ychwanegol o staff bellach wedi ei sicrhau er mwyn rhoi rhywfaint o gymorth gweinyddol i'r Swyddog Pensiynau.

6.3 Nodwyd, fel sector cyhoeddus, bod cael mynediad at y gronfa bensiynau hon yn bwysig iawn a bod angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod pawb sy'n gymwys yn cael gwybodaeth ddigonol i'w galluogi i wneud penderfyniad hyddysg am optio allan. Cafodd yr aelodau wybod bod y cynllun bellach yn optio gweithwyr i mewn yn awtomatig ar ôl cael eu penodi a'u bod yn gorfod cyflwyno cais i optio allan. Roedd y broses optio allan oedd wedi'i rhoi ar waith yn un gadarn dros ben.

6.4 **PENDERFYNWYD:**
**(i) Nodi cynnwys yr adroddiad; a**

## 7. ADRODDIAD DIWEDDARU – GWEINYDDWR

7.1 Cyflwynodd Martin Morgan adroddiad gweinyddu pensiynau'r Gwasanaeth – Mawrth 2023. Roedd yn anelu at roi diweddariad ar gynnydd nifer o brosiectau oedd yn cael eu cynnal ar yr un pryd, ynghyd â darparu gwybodaeth am faterion perthnasol wrth weinyddu budd-daliadau'r cynllun.

7.2 Tynnwyd sylw at y pwyntiau allweddol yn yr adroddiad a chytunwyd bod angen gwneud mwy o waith i roi cyhoeddusrwydd i fanteision Fy Mhensiwn Ar-lein ymysg diffoddwyr tân.

7.3 Nododd PSTC MacArthur y bu nifer o drosglwyddiadau'n ddiweddar a bod y broses wedi'i hwyluso mewn modd amserol iawn gan Gronfa Bensiwn Dyfed.

7.4 Trafodwyd y broses wrth gefn ar gyfer y cynllun a chytunwyd y dylid anfon y wybodaeth hon at RM i'w chynnwys ar y Gofrestr Risg.

7.5 **PENDERFYNWYD:**

**(i) Nodi cynnwys yr adroddiad; a**

**ii) chynnwys manylion y broses wrth gefn ar y Gofrestr Risg.**

**8. DIWEDDARIAD AR FATERION CYFREITHIOL**

8.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur yr adroddiad hwn, a oedd wedi'i ysgrifennu i roi diweddariad i aelodau o'r Bwrdd Pensiwn Lleol (LPB) ar faterion cyfreithiol sy'n effeithio ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

8.2 Nodwyd bod Dyfarniad McCloud a dyfarniad O'Brien yn creu llwyth gwaith trwm, a bod ymholiadau yn cyrraedd bellach gan rai diffoddwyr tân oedd eisoes wedi ymddeol yn gofyn am gael eu prosesu o dan Ddyfarniad McCloud.

8.3 **PENDERFYNWYD**

**i) nodi'r materion cyfreithiol parhaus sy'n berthnasol i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a'r statws presennol; a**

**ii) nodi effaith bosibl y ddwy her gyfreithiol ar y prisiad actiwaraidd sydd i ddod.**

**9. Y GOFRESTR RISG**

9.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur adroddiad y Gofrestr Risg, a oedd yn rhoi diweddariad i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol (BPLs) ar y trefniadau rheoli risg.

9.2 Gofynnwyd i'r aelodau nodi mai'r risg uchaf ar y gofrestr o bell ffordd oedd y risg cyllido.

9.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) Ystyried a chymeradwyo'r asesiad o'r risgiau cyllid sy'n gysylltiedig â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân.**

**10. HYFFORDDIANT**

10.1 Cyflwynwyd sesiwn hyfforddi ar sut y caiff prisiad y gronfa bensiwn ei gyfrifo, a rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau.

10.2 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi cynnwys y cyflwyniad.**

## 11. BWRDD YMGYNGHORI'R CYNLLUN

11.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur adroddiad Bwrdd Ymgynghori'r Cynllun, a oedd yn rhoi diweddariad i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol (BPLl) ar faterion a drafodwyd yng nghyfarfod Bwrdd Ymgynghori'r Cynllun i Gymru (SABW).

11.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r materion a drafodwyd yn y cyfarfod diweddaraf ar 30 Ionawr 2023.**

## 12. MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

12.1 Cytunwyd y dylai'r Adroddiad Blynyddol fynd gerbron yr Awdurdod, a byddai hwn yn cael ei ddiwygio i dynnu sylw at rai o'r prif risgiau. Byddai'r diwygiad i aelodaeth y Cylch Gorchwyl hefyd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo.

## 13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

13.1 Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 18 Gorffennaf, 2023 am 09:00 y bore.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:15